# Ysgol Casmael

***Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence***

11.12.20

Annwyl rieni,

Erbyn hyn rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod arweinwyr y Cyngor yn ein rhanbarth wedi cytuno i ganiatáu i ysgolion gymryd rhan mewn dysgu o bell o ddydd Mawrth yr wythnos nesaf. Mae hyn yn golygu mai dydd Llun, Rhagfyr 14eg fydd y diwrnod olaf yn yr Ysgol i'r mwyafrif o'n disgyblion. Fe gafodd y penderfyniad yma ei wneud er budd ein disgyblion, ein staff a chi fel teuluoedd, yr hyn yr ydym eisiau fwyaf yw i bawb i fwynhau Nadolig iach, hapus, teuluol.

O ddydd Mawrth, Rhagfyr 15fed bydd ein disgyblion yn cymryd rhan mewn dysgu o bell unwaith eto, bydd hyn yn bennaf ar ffurf pecyn o weithgareddau Nadolig mewn amlen. Bydd staff ar gael wythnos nesaf i gefnogi ac i ddarparu unrhyw help sydd ei angen, i gynnig gofal plant i blant gweithwyr hanfodol, a byddwn hefyd yn treulio amser yn cynllunio ar gyfer dechrau'r tymor nesaf. Felly, er y bydd disgyblion yn aros gartref o ddydd Mawrth 15fed, fe fydd yr Ysgol yn gorffen o safbwynt addysg ar ddydd Gwener, Rhagfyr 18fed.

Rydym yn ansicr hyd yn hyn sut y bydd y tymor nesaf yn edrych, ond mae'n debygol y gallai'r dull o ddysgu fod yn un o ddysgu cyfunol - mae hyn yn golygu cyfuniad o addysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell. Yn ystod yr wythnosau nesaf, treuliwch amser yn darllen i'ch plentyn a gyda'ch plentyn, a sicrhau bod eich plentyn yn gallu gwneud defnydd o'r rhaglenni ar y cyfrifiadur yn hyderus er mwyn cael mynediad i'w ddysgu ar-lein.

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn llawn heriau i ni i gyd, hoffem sicrhau bod pob disgybl yn parhau i wneud cynnydd gyda'i ddysgu heb doriad ar ddechrau'r tymor nesaf, er gwaethaf yr hyn a allai ddigwydd yn ein hardal! Byddwn yn parhau i ddefnyddio Hwb, yn enwedig J2E fel ein platfform dysgu yn hytrach na chreu "One Note" newydd. Byddwn hefyd yn dechrau defnyddio "Microsoft Teams" i ddarparu mewnbwn byw i'n dysgwyr hŷn.

Ar Ddydd Llun bydd pob disgybl yn dod â chwdyn plastig adref gyda chardiau, crefftau ac anrheg wrth Siôn Corn. Gadewch i dri diwrnod i basio cyn agor cynnwys y bag oherwydd ni fydd yr eitemau hyn wedi cael amser mewn cwarantîn yn yr ysgol.

Bydd dydd Llun 14eg nawr yn ddiwrnod siwmper Nadolig / parti Nadolig / cinio Nadolig i gyd wedi'i rolio i mewn i un! I ginio fe fydd bocs arbennig o fwyd parti, wedi coginio gan Mrs. Bethan Williams. Byddwn yn cael diwrnod hwylus llawn bwyd a gemau tra'n aros yn ein swigod.

Gobeithio eich bod i gyd yn cytuno taw'r cynllun yma yw'r ffordd fwyaf diogel ymlaen i ni i gyd ar hyn o bryd. Rydyn ni wedi bod yn ffodus iawn hyd yn hyn, mae

**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**

pawb wedi aros yn iach, ac mae'r gefnogaeth rydw i wedi'i chael gan ein llywodraethwyr, rhieni, staff a disgyblion wedi bod heb ei hail. Hoffwn ddiolch i staff ein hysgol am eu gwaith caled ac am fod mor gefnogol i'n dysgwyr yn ystod cyfnod mor anodd, hefyd ein llywodraethwyr am ddangos dealltwriaeth lawn o'n sefyllfa bresennol.

Mae angen diolch i'n disgyblion hefyd, maen nhw wedi dychwelyd i amgylchedd gwahanol iawn ac wedi derbyn y newidiadau a'r gwahaniaethau gydag ychydig iawn o ddrwgdeimlad a chwyno Diolch hefyd i chi fel rhieni, mae adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, cryf gyda'n rhieni yn rhan bwysig iawn o fywyd yr Ysgol yma, gallai'r her o bellhau cymdeithasol a gwisgo mygydau fod yn fygythiad i'r perthnasoedd hyn, felly mae'n dda derbyn e-byst, galwadau ffôn a negeseuon gan lawer ohonoch yn helpu i gynnal y perthnasoedd da hyn, p'un a oes gennych bryderon neu hyd yn oed dim ond i gadw mewn cysylltiad. Wedi'r cyfan, rydyn ni fel staff Ysgol yn gofalu am bobl bwysig iawn am ran helaeth o bob diwrnod!

Mae'n anodd credu bod Estyn wedi ymweld â ni 12 mis yn ôl ac wedi penderfynu ar 5 dyfarniad rhagorol hynny, fodd bynnag, mae'r ffordd yr ydym i gyd wedi gweithio gyda'n gilydd fel cymuned yn ystod yr amser anodd iawn hwn yn cefnogi'r barnau yna ac yn profi pa mor gryf rydym fel cymuned ysgol. .

Hoffwn gymryd cyfle hwn i ddymuno Nadolig hapus ac iachus iawn i chi i gyd, Nadolig pan fyddwn i gyd yn cymryd amser i fwynhau'r pethau syml mewn bywyd yr ydym efallai wedi'u cymryd yn ganiataol mewn blynyddoedd blaenorol.

Pan fydd newyddion ar gael am dymor nesaf byddaf yn eich hysbysu cyn gynted â phosibl. Gadewch i ni gobeithio a gweddïo y bydd 2021 yn flwyddyn llawer mwy disglair a mwy diogel i ni i gyd.

Gyda dymuniadau gorau,
Amanda Lawrence
Pennaeth.


**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**

**YSGOL CASMAEL**

***Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence***



11.12.20

Dear parents,

By now I am sure that you are all aware that the Council leaders in our region have agreed to allow schools to engage in distance learning from Tuesday of next week. This means that for the vast majority of pupils the last day in school will be Monday, December 14th. This decision has been made in the interests of our pupils, our staff and yourselves as families, what we want most is for everyone to enjoy a healthy, happy, family Christmas.

From Tuesday, December 15th our pupils will once again engage in home learning, this will mainly take the shape of a pack of Christmas activities supplied in an envelope. Staff will be available next week to support and to provide any help needed, to offer childcare to the children of critical workers, we will also be spending time planning for the beginning of next term. Therefore, although pupils will stay at home from Tuesday 15th, school still finishes from a learning point of view on Friday, December 18th.

We are unsure as yet how next term will look, but it is likely that the approach may be one of blended learning – this means a combination of face-to-face teaching and remote learning. During the next few weeks please spend time reading to and with your child, and making sure that your child is able to access the various accounts that they need to access their online learning. This year has been full of disruptions, we would like to make sure that every pupil continues to make uninterrupted progress with their learning from the very beginning of next term, despite what might or might not happen in our area. We will continue to make use of Hwb, particularly J2E as our learning platform rather than creating a new One Note. We will also begin to make use of Microsoft Teams to provide a live input for our older learners.

On Monday each pupil will bring home a carrier bag filled with cards, crafts and a gift from Father Christmas. Please allow three days to pass before opening the contents of the bag as due to the last-minute changes these items will not have had time to quarantine in school.

Monday 14th will also now become Christmas jumper day/Christmas party/Christmas lunch all rolled into one! Lunch will be a Christmas box of party food freshly prepared by our own Mrs. Bethan Williams. We will have a fun day of food and games whilst remaining in our bubbles.

I hope that you all appreciate that this plan really is the safest way forward for us all at this present time. We have been very fortunate so far, everyone has remained healthy, and the support I have received from our governors, parents,

**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**

**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**



staff and pupils has been second to none. I would like to thank our school staff for their hard work and for being so supportive of our learners during such a difficult time, also our governors for being very understanding of the current situation.

Our pupils also need to be thanked, as I have mentioned before, they have returned to a very different environment and accepted the changes and the differences with very little bad feeling or complaints. My thanks also to you as parents, building positive, strong relationships with our parents is a very important part of school life, the challenge of social distancing and mask wearing could be a threat to these relationships, it is therefore good to receive emails, phone calls and messages from many of you to help sustain these good relationships, whether you have concerns or even just to keep in touch. We do, after all, look after some very important people for a large part of each day!

It is hard to believe that Estyn visited 12 months ago and awarded us those 5 excellent judgements, however, the way that we have all worked together as a community during this very difficult time supports these views and proves how strong we are as a school community.

May I take this opportunity to wish you all a very happy and healthy Christmas, a Christmas when we all take time to enjoy the simple things in life that we have maybe taken for granted in previous years. As ever, when any news becomes available I will inform you as soon as possible. Let us hope and pray that 2021 will be a much brighter and safer year for us all.

With best wishes,
Amanda Lawrence
Head teacher.

**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**